

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru


# Crynodeb Ymchwil Tai

## Cysgu Allan yng Nghymru

O Hydref 1998 i Hydref 1999 cyflogwyd Paul Bevan, yn gyntaf gan y Swyddfa Gymreig ac yna gan Gynulliad Cenedlaethol Gymru, i ymchwilio i amllder ac achosion cysgu allan ym mhob rhan o Gymru, ac i gynghori ynghylch strategaethau effeithiol i roi cymorth i rai sy'n cysgu allan. Cyflogwyd Mr Bevan ar secondiad o gorff gwirfoddol sy'n gweithio yn y maes hwn, sef Newport Action for the Single Homeless.

Seiliwyd y gwaith ar ymweliadau ag adrannau tai pob awdurdod lleol yng Nghymru a thua hanner cant o gyrff eraill, sy'n gweithio i helpu'r digartref sengl. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ym mhob ardal awdurdod lleol ac yn rhestru cyfres o argymhellion i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol. Canfyddiadau Mr Bevan oedd:

- Mae'n amhosibl sefydlu ffigurau manwl am y niferoedd o bobl sy'n cysgu allan ar unrhyw un noson, neu dros gyfnod o flwyddyn, oherwydd yr anhawster cynhenid o gasglu data cywir, y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yn yr arolygon a gynhaliwyd, gwahaniaethau amser, a'r cwmpas daearyddol anghyflawn.
- Mae'r cyfuniad o ffactorau sy'n achosi i bobl gysgu allan yn amrywiol iawn, ac yn llawer ehangach na'r prinder syml o lety fforddiadwy. Y ffactorau pwysicaf yw tor-perthynas, tlodi, diweithdra, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, camdrin rhywiol neu gorfforol, a'r anallu i ymdopi mewn llety annibynnol.
- Mae strategaeth amlddisgyblaeth, amlasiantaeth, oleuedig yn hanfodol er mwyn defnyddio adnoddau yn effeithiol a darparu gwasanaethau addas, ond nifer fach o'r awdurdodau lleol Cymreig sydd wedi datblygu strategaethau o'r fath.
- Y prif fylchau a ddylid eu cyflenwi, a nodwyd gan yr awdurdodau lleol a'r gyrff digartrefedd, yw rhagor o lety argyfwng a thai fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl; gwasanaethau adsefydlu a chymorth er mwyn helpu pobl i gynnal tenantiaeth; gwasanaethau cyngor tai; a llety arbenigol gyda chymorth i rai sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol.
- Mae llawer o bobl ddigartref yn ei chael yn anodd i gofrestru gyda Meddyg Teulu ac i gael mynediad at ofal iechyd.



## Amllder ac achosion cysgu allan

Canfu'r adroddiad fod arolygon cysgu allan wedi eu cynnal mewn rhai mannau yng Nghymru, ond yr oedd y gwahanol ddulliau arolygu, amseriad yr arolygon, eu cwmpas anghyflawn, ac anhawster cynhenid casglu data cywir yn ei gwneud yn anodd i sefydlu'r nifer o bobl sy'n cysgu allan ar unrhyw un noson, neu dros gyfnod o flwyddyn. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y mwyafrif o'r cysgwyr allan i'w cael yn y trefi a'r dinasoedd mwyaf, ond ceir dystiolaeth eglur bod cysgu allan yn digwydd hefyd yn y trefi llai, ac mewn rhai ardaloedd gwledig.

Mae'r rhesymau dros gysgu allan yn niferus. Er bod yr union gyfuniad o ffactorau, sy'n ysgogi unigolyn i gysgu allan, yn unigryw fel yr unigolyn ei hunan, gellir dirnad rhai o'r ffactorau mwyaf cyffredin: tor-perthynas, tloedi; diweithdra; problemau iechyd meddwl; camddefnyddio cyffuriau neu alcohol; cam-drin rhywiol neu gorfforol; a'r anallu i ymdopi mewn llety annibynnol.

## Y gwasanaethau a'r strategaethau presennol ar gyfer digartrefedd y sengl

Mae'r gwasanaethau llety a chymorth a fydd yn dod i gysylltiad amlaf â phobl sy'n cysgu allan, i'w cael yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam a Bangor; ac y mae'r ddarpariaeth ehangaf a mwyaf amrywiol yng Nghaerdydd ac Abertawe. Ceir peth darpariaeth mewn trefi eraill, megis cynllun mynediad uniongyrchol yng Nghaerfyrddin, a rowndiau cawl yng Nghaernarfon, Bae Colwyn, Llandudno a'r Rhyl. Yn ogystal â'r llochesau nos sy'n agored trwy'r flwyddyn yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam a Bangor, yr oedd llochesau dros dro yng Nghaerdydd, Y Fenni, Y Rhyl a Bangor yn agored


yn ystod gaeaf 1998/99. Mae Sir Benfro hefyd, yn ystod y gaeaf, yn barod i letya rhai sy'n cysgu allan, yn ei hostelau ar gyfer y 'digartref statudol'.

Pedwar o'r ddau ar hugain awdurdod lleol sydd wedi paratoi strategaeth ysgrifenedig ar gyfer digartrefedd y sengl; ond mewn nifer o'r gweddill sefydlwyd fforymau y gellid eu defnyddio fel talwrn priodol i ddatblygu strategaeth o'r fath. Gall strategaeth amlddisgyblaeth, amlasiantaeth oleuedig chwarae rhan bwysig, i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithiol ac y darperir gwasanaethau addas.

## Bylchau yn y ddarpariaeth a materion eraill

Y prif fylchau yn y gwasanaethau, a nodwyd fel rhai a ddylid eu llenwi gan yr awdurdodau lleol a'r mudiadau yr ymwelwyd â hwy, oedd: llety argyfwng (cynlluniau bach, yn aml, mewn nifer o drefi o fewn ardal awdurdod lleol); rhagor o dai fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl; gwasanaethau adsefydlu a chymorth, er mwyn helpu pobl i gynnal eu llety; gwasanaethau cyngor tai; a gwasanaethau (megis llety gyda chymorth) i rai sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Bylchau eraill, a nodwyd mewn nifer llai o ardaloedd, oedd: canolfannau dydd neu ganolfannau galw-heibio i bobl ddigartref; cynlluniau bond er mwyn helpu pobl i gael mynediad i lety preifat ar rent; gwasanaethau cenhadol i ddod i gysylltiad â chysgwyr allan; a llety gyda chymorth i bobl ddigartref sy'n arddangos problemau ymddygiad neu ddull o fyw di-drefn. Nododd atebwyr mewn wyth o'r ardaloedd awdurdod lleol fod angen rhagor o ymchwil i gysgu allan.

Yn ogystal â nodi'r diffygion yn lefel y gwasanaethau sydd ar gael i bobl sengl



ddigartref, mae'r adroddiad yn tanlinellu'r anawsterau sy'n wynebu llawer ohonynt, wrth geisio cael mynediad at y gwasanaethau sydd yn bod. Y prif broblemau a ddaeth i'r amlwg oedd: cofrestru gyda Meddyg Teulu a chael mynediad at ofal iechyd; cael cymorth i bobl a oedd yn wynebu problemau mewn dau neu ragor o'r meysydd iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau, ac alcohol; a chael cymorth i bobl gydag anhwylder personoliaeth neu broblem ymddygiad. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y flaenoriaeth isel a roddir gan yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol i bobl sengl ddigartref. Mewn oddeutu hanner yr ardaloedd awdurdod lleol, cyfeiriwyd at anawsterau ynglŷn â budd-daliadau tai a nawdd cymdeithasol. Tynnwyd sylw mewn nifer llai o'r ardaloedd at arafwch mynediad at y gwasanaeth adferiad cyffuriau; a'r angen am well paratoad a chymorth i bobl a ryddheir o garchar, neu sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol. Yr oedd atebwyr mewn chwech o'r awdurdodau lleol, nad oedd ganddynt strategaeth benodol ar gyfer digartrefedd y sengl, yn credu ei bod yn bwysig datblygu strategaeth o'r fath.

### Casgliadau ac argymhellion


Un o'r prif gasgliadau yn yr adroddiad yw fod cysgu allan a digartrefedd y sengl yn dibynnu ar ffactorau llawer ehangach na materion tai yn unig, a'i fod yn hanfodol darparu mathau o gymorth sydd wedi eu teilwra i anghenion yr unigolion.

Mae'r adroddiad yn gwneud 37 o argymhellion pellgyrhaeddol. Mae llawer ohonynt yn ymwneud â'r angen am lety a gwasanaethau cymorth ychwanegol i'r digartref sengl ac i bobl sy'n cysgu allan, ac fel y cyfryw mae ganddynt

oblygiadau ariannol sylweddol. Fodd bynnag, mae argymhellion eraill yn galw am lai o ymrwymiad ariannol, er enghraifft datblygu strategaeth ddigartrefedd genedlaethol, a'i chyfannu gan strategaethau digartrefedd y sengl ym mhob awdurdod lleol. Dylai fod 'lladmerydd' ym mhob awdurdod lleol i sicrhau bod strategaethau o'r fath yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro. Argymhellir cynnal ymchwil pellach i'r anhawster a wynebir gan rai pobl ddigartref sengl, wrth geisio mynediad at Feddygon Teulu; a bod awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sicrhau nad ydynt yn cyfyngu'r mynediad i'r cofrestrau tai yn ddigyfiawnhad, i bobl nad oes ganddynt gyfeiriad.

Mae rhai o'r argymhellion yn galw am newid deddfwriaeth sylfaenol (er enghraifft cynyddu'r budd-dâl tai y gellir ei hawlio gan rai 16-25 oed, i'r lefel sydd ar gael i rai dros 25); a hefyd newidiadau deddfwriaethol sydd o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ehangu'r categorïau o bobl ddigartref yr ystyrir bod eu hangen am lety yn flaenoriaeth, i gynnwys y rhai sy'n cysgu allan).

Argymhellion eraill yw sefydlu fformat a dull cyson o gadw cofnodion am gysgu allan a digartrefedd y sengl; sicrhau bod grant (sy'n cyfateb i'r Grant Refeniw Tai Gyda Chymorth (SHRG)) ar gael i gynorthwyo tenantiaid awdurdodau lleol a landlordiaid preifat, sydd angen cymorth i gynnal eu tenantiaeth; a bod awdurdodau lleol yn sicrhau y gwneir asesiad o anghenion pawb a ganfyddir yn ddigartref, gan wneud trefniadau priodol ar gyfer gwasanaethau cymorth.





Mae'r adroddiad **Cysgu Allan yng Nghymru** a chopïau pellach o'r crynodeb hwn ar gael gan:

**Sue Wood**

Adran Tai ac Adnewyddu Cymunedol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 3904

E-bost: [sue.wood@Wales.gsi.gov.uk](mailto:sue.wood@Wales.gsi.gov.uk)